

# Canllaw Dylunio Draenio Priffyrdd

2023

[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

<b>1</b>	<b>Rhagarweiniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2</b>	<b>Draenio Cynaliadwy.....</b>	<b>1</b>
<b>3</b>	<b>Dylunio Draenio Priffyrdd .....</b>	<b>3</b>
<b>4</b>	<b>Ffogydd Cerrig Priffyrdd .....</b>	<b>6</b>
<b>5</b>	<b>Atalydd / Gwahanydd Olew.....</b>	<b>6</b>
<b>6</b>	<b>Ffioedd Cysylltu a fetio Draenio Priffyrdd .....</b>	<b>6</b>

# Canllaw Dylunio Draenio Priffyrdd

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r disgwyliadau a'r gofynion ar gyfer systemau draenio dŵr ffo sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd sydd wedi'u lleoli o fewn y briffordd ac sydd i'w hyrwyddo i'w mabwysiadu gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu sy'n gysylltiedig â systemau draenio priffyrdd presennol.

Mae'r ddogfen hon, sy'n ymwneud â draenio priffyrdd, wedi'i drafftio i ategu'r Canllaw Dylunio Priffyrdd.

Mae'r dull a fabwysiadwyd yn cefnogi egwyddorion dylunio ac adeiladu systemau draenio trefol cynaliadwy.

## 2. Draenio Cynaliadwy

Dylid nodi, o 7 Ionawr 2019, bod angen i Gorff Cymeradwyo SuDS (SAB) gymeradwyo'r system draenio dŵr ffo ar gyfer datblygiadau dros 100 metr sgwâr, sy'n effeithio ar allu'r ddaear i amsugno dŵr glaw, gan cyn dechrau ar y gwaith adeiladu. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r cynigion sy'n cael eu paratoi i fodloni'r safonau priffyrdd hyn yn bodloni'r trothwy hwnnw. Ar gyfer y safleoedd hynny sy'n gallu dangos bod ganddynt eithriad dilys i'r gofyniad am gymeradwyaeth SAB, argymhellir bod yr egwyddorion a gynhwysir yn y Safonau SuDS Statudol yn dal i gael eu dilyn wrth ddylunio draenio'r safle.

2.2 Dylid nodi hefyd fod y Safonau SuDS Statudol, y bydd ceisiadau SAB yn cael eu hasesu yn eu herbyn, yn nodi hierarchaeth y mae'n rhaid ei dilyn wrth benderfynu i ble y bydd y dŵr ffo yn llifo (naill ai o'r briffordd neu o eiddo):

- Lefel Blaenoriaeth 1: Mae dŵr ffo yn cael ei gasglu i'w ddefnyddio;
- Lefel Blaenoriaeth 2: Mae dŵr ffo yn cael ei ymdreiddio i'r ddaear;
- Lefel Blaenoriaeth 3: Mae dŵr ffo yn cael ei ryddhau i gorff dŵr wyneb;
- Lefel Blaenoriaeth 4: Mae dŵr ffo yn cael ei ryddhau i garthffos dŵr wyneb, draen priffordd, neu system ddraenio arall;
- Lefel Blaenoriaeth 5: Mae dŵr ffo yn cael ei ryddhau i garthffos gyfunol.

Pan nad yw lefelau blaenoriaeth 1-3 yn briodol, bydd disgwyl i ddŵr ffo lifo i ddraen priffordd neu system ddraenio dŵr ffo, oni bai:

- Nad yw'n rhesymol ymarferol i gludo'r dŵr ffo i garthffos dŵr ffo neu system draenio priffyrdd;
  - Nad yw'n bosibl rhyddhau'r dŵr ffo i garthffos dŵr ffo neu system ddraenio priffyrdd heb ddefnyddio pwmp;
  - Byddai rhyddhau'r dŵr yn arwain at gynydd annerbyniol yn y perygl o lifogydd.
- 2.3 Mae 6 Safon SuDS gan gynnwys, cyrchfan (gweler uchod), rheolaeth hydrolig, ansawdd dŵr, amwynder, bioamrywiaeth a dyluniad; a rhaid cydymffurfio â phob un ohonynt fel rhan o'r cynllun draenio cynaliadwy ar gyfer y datblygiad. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun SuDS cyffredinol, cysylltwch â'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy SAB@sirgar.gov.uk.
- 2.4 Pan fydd dŵr yn cael ei ryddhau i ddraen priffyrdd, bydd angen dod i gytundeb â Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd disgwyl i ymgeiswyr sy'n ceisio gwneud cysylltiad âdraen priffordd fod wedi cynnal trafodaethau blaenorol gyda'r SAB a chytuno ar bamedrau dylunio a rhyddhau.
- 2.5 Lle gallai cais SAB effeithio ar ffordd, neu system ddraenio gysylltiedig y mae'r Awdurdod Priffyrdd lleol yn gyfrifol amdani, bydd y SAB yn ymgynghori â'r Awdurdod Priffyrdd fel rhan o'r broses gymeradwyo SuDS
- 2.6 Rhaid i'r system ddraenio dŵr ffo gydymffurfio â gofynion y dogfennau a restrir isod, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â risg llifogydd a gofynion systemau draenio cynaliadwy yn foddhaol er mwyn lliniaru effaith andwyol bosibl unrhyw ddatblygiad newydd. Bydd y datblygwr hefyd yn cynnal Asesiad Effaith Hydrolig (HIA) ar gyfer y safle arfaethedig i sicrhau na fydd dim niwed i'r drefn ddraenio bresennol a pherygl llifogydd o fewn yr ardal yn unol â gofynion: -
- i) Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009
  - ii) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
  - iii) Carthffosydd i'w Mabwysiadu -y 7fed Rhifyn
  - iv) Nodyn Cyngor Technegol 15 - Datblygu a Pherygl Llifogydd
  - v) Polisi Cynllunio Cymru - y 10fed Rhifyn
  - vi) BRE Digest 365
  - vii) BS EN 752:2017 Systemau Draenio a Charthffosydd y Tu Allan i Adeiladau
  - viii) Adroddiad CIRIA C753 (Llawlyfr SuDS (2015))
  - ix) Adroddiad CIRIA C786 (Llawlyfr Sgrin Cwlfert ac Arllwysiad (2019))

### **3. Dylunio Draenio Priffyrdd**

3.1 Rhaid i'r gwaith o ddylunio draenio priffyrdd fod ar gyfer y cyfnodau dychweliadd stormydd canlynol:

- 1 mewn 2 flynedd (Dim gorlenwi o fewn y system)
- 1 mewn 30 mlynedd (Dim llifogydd o'r system)
- 1 mewn 100 mlynedd (Llifogydd o system sydd wedi'i storio dros dro ar y briffordd neu wedi'i chyfeirio i fan agored, ni chaiff unrhyw eiddo ei orlifo).

3.2 Bydd effaith newid yn yr hinsawdd yn cael ei hystyried ar gyfer pob datblygiad arfaethedig a bydd y cyfnodau dychweliad uchod yn cael eu hasesu yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru gan gynnwys Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol.

3.3 Yn ystod tywydd gwlyb iawn, gall capasiti draenio'r priffyrdd fod yn annigonol, hyd yn oed pan fydd wedi'i ddylunio yn unol â'r Canllaw hwn. O dan amodau o'r fath, gall draeniau priffyrdd orlifo a gall dŵr ffo lifo o'r cloriau tyllau archwilio hynny sydd islaw'r graddiant hydrologig. Rhaid gwneud gwiriadau i sicrhau bod lefel ddigonol o amddiffyniad yn erbyn llifogydd mewn eiddo ac addasu'r dyluniad lle na chyflawnir yr amddiffyniad llifogydd gofynnol. Mae hyn yn bwysig iawn o safbwynt datblygiadau tonnog neu ar lethr serth.

3.4 Wrth ddylunio draenio priffordd a chynllun y safle bydd angen i ddatblygwyr hefyd ddangos llwybrau llif ac effeithiau posibl llifogydd o ganlyniad i stormydd sy'n mynd y tu hwnt i'r meini prawf dylunio. Rhaid darparu ar gyfer storio llif gormodiant hyd at y digwyddiad storm 1 mewn 100 mlynedd o fewn y safle trwy lwybr llif dros y tir neu lifogydd arwyneb dros dro mewn mannau megis meysydd parcio neu ardaloedd wedi'u tirlunio.

3.5 Gellir ystyried dewisiadau eraill yn lle defnyddio cwteri ffordd fel rhan o gynllun draenio cynaliadwy.

3.6 Rhaid lleoli cwteri ffordd neu fannau addas i ddŵr ffo lifo ym mhob pwynt cafn. Pan fo darn o ffordd yn hwy na 200 metr rhwng pwyntiau'r cafn, dylid darparu dwy gwter, (neu lwybrau draenio dŵr ffo amgen digonol) ym mhwynt y cafn gydag allfeydd annibynnol i'r prif ddraen. Oni bai bod eu hangen ar gyfer safle pwynt cafn, ni ddylai cwteri gael eu lleoli yn erbyn y cyrbau radiws ar gyffyrdd.

Dylai'r bwllch rhwng unrhyw gwteri, neu le i ddŵr ffo lifo i system ddraenio gynaliadwy, fod mewn modd fel nad yw pob draen yn draenio mwy na 160 metr sgwâr o briffordd (cerbyttyrdd a throedffyrdd).

3.7 Yn achos draenio traddodiadol, mae angen gosod tyllau archwilio lle bo newid mewn aliniad llorweddol a fertigol a heb fod yn fwy na 100 metr oddi wrth ei gilydd.

3.8 Ni ddylai meintiau pibellau draenio fod yn llai na 225 mm diamedr, ac eithrio ar gyfer cysylltiadau cwteri, na fydd yn llai na 150 mm.

- 3.9 Ni chaniateir gosod unrhyw ddraen cludo ar raddiant llai nag 1 mewn 120 oni bai y gellir cyflawni cyflymder hunan-lanhau o 0.75m/s. Fodd bynnag, yn achos tanciau casglu dŵr, cânt eu gosod ar y fath raddiant fel na fydd yn achosi llifogydd ar y briffordd cyn llanw.
- 3.10 Ni ddylid gosod cloriau tyllau archwilio o dan y traciau olwynion nac ar lwybr cerddwyr wrth groesfannau.
- 3.11 Dylai system draenio priffyrdd a osodir o dan gerbyttfordd, troedffordd neu ymyl priffordd gael gorchudd o 1.2m o leiaf wedi'i fesur o ben y baril pibell i'r lefel ddaear orffenedig. Pan nad yw hyn yn bosibl, rhaid i ddraeniau'r briffordd ymgorffori gwely concrit ST4 150mm o drwch a'i amgylchynu a fydd yn cael ei dorri dros ei groestoriad llawn wrth bob uniad pibell gan lenwad sy'n cydymffurfio â BS EN 120 a BS EN 317.
- 3.12 Ni fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn mabwysiadu system ddraenio dŵr ffo, sy'n cynnwys dŵr ffo o'r to, o'r iard, ac o arwynebau preifat a rennir. Rhaid sicrhau nad yw dŵr ffo o do, iard, tramwyfeydd ac arwynebau preifat a rennir yn llifo i system ddraenio priffyrdd bresennol, heb gymeradwyaeth yr awdurdod priffyrdd.
- 3.13 Pan fo cysylltiad presennol o ddraenio allanol i'r draeniau ffordd, naill ai'n hanesyddol neu drwy gytundeb, gall Cyngor Sir Caerfyrddin ganiatáu i'r hawl i gysylltu barhau ar yr amod bod y mewnbwn o'r dalgylch sy'n cyfrannu at y cysylltiad yn parhau heb ei newid.
- 3.14 Bydd asesiad o ddraeniad tir presennol a dŵr ffo o ddalgylchoedd ger y palmant ffordd yn cael ei gynnwys yn nyluniad draenio'r briffordd yn unol â CD 522 [Cyf 7.N]. NODER: Gall dŵr ffo ddod o dir o fewn ffin gyffredinol y priffyrdd neu'r tu allan iddo.
- 3.15 I sicrhau cyfanrwydd systemau draenio ffyrdd, ni fydd unrhyw ddŵr ffo sy'n deillio o unrhyw newid defnydd tir o fewn dalgylch dŵr ffo'r ffordd yn cael ei dderbyn.
- 3.16 Pan fo bwriad i ryddhau draenio'r priffyrdd i gwrs dŵr yn unig, ni fydd angen caniatâd rhyddhau. Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdod gytuno ar gyfradd ryddhau (tebygolrwydd blynyddol neu gyfradd uchaf flynyddol gymedrig o ddŵr ffo).
- 3.17 Mae'r awdurdod yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau am gysylltiadau i systemau draenio priffyrdd sy'n rhyddhau i dir trydydd parti. Pan gaiff ceisiadau o'r fath eu cymeradwyo efallai y bydd yr awdurdod yn gofyn am indemniad yn erbyn hawliadau trydydd parti.
- 3.18 Bydd angen Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd (FDC) gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas ag unrhyw strwythur gollwng gofynnol sy'n rhyddhau i'r brif afon. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cwrs dŵr arferol gan y tîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir [FDCP@sirgar.gov.uk](mailto:FDCP@sirgar.gov.uk) mewn perthynas ag unrhyw strwythur gollwng sy'n rhyddhau i gwrs dŵr cyffredin. Rhaid darparu FDC/OWC cyn cwblhau Cytundeb Adran 38 neu fabwysiadu'r gwaith stryd.

3.19 Bydd angen swm gohiriedig ar ddraenio priffyrdd sy'n gofyn am wanhau'r llif i dalu am gynnal a chadw'r mecanwaith gwanhau a rheoli llif.

3.20 Bydd ffosydd cerrig yn cael eu hystyried lle profir bod amodau tir yn addas yn unol â BRE Digest 365 neu weithdrefn arall y cytunwyd arni a heb achosi unrhyw niwed yn y cyffiniau. Bydd angen taliad gohiriedig ar gyfer ffosydd cerrig priffyrdd i dalu am gynnal a chadw'r ffos gerrig yn y dyfodol.

Pan fo systemau draenio priffyrdd yn rhyddhau i ffosydd cerrig, rhaid defnyddio pyllau dal trwy'r system gyfan yn lle tyllau archwilio.

3.21 Bydd systemau draenio priffyrdd sy'n cael caniatâd i ryddhau dŵr i ddraen priffordd presennol yn mynnu bod datblygwr yn talu swm gohiriedig tuag at y risg uwch sy'n gysylltiedig â chaniatáu'r cysylltiad. Bydd y swm gohiriedig yn cyfrannu at archwiliadau blynyddol a chostau cynnal a chadw uwch oherwydd y llwyth ychwanegol a ychwanegwyd at y system bresennol.

3.22 I wneud cais am gysylltiad system ddraenio priffyrdd newydd â draen priffordd presennol, rhaid i ddatblygwyr yn y lle cyntaf gyflwyno cais ysgrifenedig i Wasanaethau Priffyrdd a Chludiant Cyngor Sir Caerfyrddin gan gynnwys: -

- I. Aseidiadau hydrolegol a chyfrifiadau hydrologig o ddalgylch y draenio priffyrdd presennol i gadarnhau ei allu hydrologig i dderbyn dŵr ychwanegol.
- II. Arolwg teledu cylch cyfyng mewn fformat digidol o'r draenio priffyrdd presennol i gadarnhau ei gyflwr strwythurol a gwasanaethol (dylai'r fformat fod yn gydnaws â fformatau WDM ac AMX).

3.23 Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am dalu ffi am adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ymwneud â chapasiti ac addasrwydd y system ddraenio priffyrdd bresennol er mwyn rhoi caniatâd i gysylltu â system ddraenio priffyrdd bresennol. Mae'r ffi wedi'i nodi yn y ddogfen hon ac mae i'w thalu cyn unrhyw gymeradwyaeth ac nid oes modd ei had-dalu. Dylid nodi nad yw talu'r ffi hon yn sicrhau y rhoddir caniatâd.

Yn dilyn cymeradwyaeth, bydd swm gohiriedig yn daladwy.

3.24 Bydd angen taliad cysylltu hefyd ar gyfer amser staff / archwiliad o'r cysylltiad â'r system ddraenio priffyrdd a lle bo angen rhaid ei dalu cyn gwneud unrhyw gysylltiad.

3.25 Bydd angen cyflwyno manylion llawn y newidiadau arfaethedig i Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer unrhyw wyriad neu newid i ddraenio priffyrdd neu gwlfwr priffyrdd presennol i'w cymeradwyo . Ni ddylai'r gwaith ddechrau nes bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i roi.

3.26 Bydd angen cytundeb A278 ar gyfer unrhyw waith i agor cyrsiau dŵr neu geuffosydd gan gynnwys atgyweirio, gwella neu ddargyfeirio ac efallai y bydd angen Caniatâd Cwrs Dŵr Arferol (OWC).

#### **4. Ffosydd Cerrig Priffyrdd**

4.1 Pan fo datblygwr yn bwriadu defnyddio SuDs a draenio draeniau priffyrdd i ffosydd cerrig, bydd y datblygwr yn gyfrifol am asesu maint a dyluniad y ffosydd cerrig ynghyd â phroffion athreiddedd y ddaear yn unol â BRE Digest 365 neu ddull arall y cytunwyd arno y mae angen glanhau ffosydd cerrig yn rheolaidd, a glanhau tyllau archwilio trap silt yn rheolaidd. Mae angen offer mwy arbenigol i lanhau'r ffosydd cerrig oherwydd y lefelau uchel o silt a malurion sy'n cael eu dyddodi yn y system tra bo dŵr yn cael ei ddal yn ôl.

#### **5. Atalydd / Gwahanydd Olew**

5.1 Dylid darparu atalydd/gwahanydd olew mewn manau parcio yn unol â chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ac mewn lleoliadau lle mae olew/hydrocarbonau yn debygol o gael eu defnyddio neu eu storio.

5.2 Mewn rhai amgylchiadau, gall potiau cwteri fod yn ddigonol cyn belled â'u bod yn addas ar gyfer amllder halogiad olew a bod modd eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw'n iawn.

5.3 Fe'ch cynghorir i ddarparu atalydd olew yn yr ardaloedd dosbarthu oherwydd risg uwch o ollyngiad olew o Loriau.

5.4 Bydd atalwyr/gwahanwyr olew sydd i'w cynnal a'u cadw gan yr Awdurdod Priffyrdd yn destun swm gohiriedig ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.

#### **6. Ffioedd Cysylltu a fetio Draenio Priffyrdd**

6.1 Pan fo datblygwr yn bwriadu rhyddhau dŵr ffo o ddatblygiad newydd i ddraen priffordd presennol, bydd y datblygwr yn: -

- a) Yn ogystal ag asesu cyfanrwydd a chapasiti, penderfynu nad yw draenio'r briffordd yn gollwng i garthffos gyfunol y cwmni dŵr.
- b) Cyfrifol am bennu maint y rhwydwaith draenio priffyrdd presennol, (lle nad oes cofnodion ar gael) ac asesu capasiti a chyfanrwydd y draeniau priffyrdd presennol i ddarparu ar gyfer y llif ychwanegol net hyd at ei bwynt rhyddhau.
- c) Gorfod talu ffioedd y Cyngor ar gyfer fetio a chymeradwyo'r dogfennau a gyflwynwyd a chyfrifiadau sy'n ymwneud â'r system ddraenio a chysylltiadau. Y ffioedd, a fydd yn destun adolygiad cyfnodol, yw: Y ffioedd, a fydd yn destun adolygiad cyfnodol, yw:



Ffioedd Fetio a Chymeradwyo Cysylltu Draenio Priffyrdd (o Ebrill 2023)		
Datblygiad.	Ffi fetio a chymeradwyo system	Ffi cymeradwyo cysylltiad *
Un Breswylfa	£500	£400
Datblygiadau preswyl o ddim mwy na 5 uned	£500 - £2500 / preswylfa	£400
Datblygiadau preswyl o ddim mwy nag 20 uned	£2500 / cysylltiad	£400 / cysylltiad
Datblygiadau preswyl mwy	Yn amodol ar asesiad unigol	Yn amodol ar asesiad unigol
Datblygiadau Masnachol a Diwydiannol	Yn amodol ar asesiad unigol	Yn amodol ar asesiad unigol

Nodiadau:

1. Bydd taliadau'n amodol ar gael eu hadolygu a'u diweddarau.
2. Rhaid gwneud taliadau cyn i unrhyw adolygiad gael ei wneud.
3. Rhaid i bob gwaith a wneir ar y briffordd gyhoeddus gael ei wneud gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n amodol ar Gytundeb Adran 278.
4. Nid yw ffioedd cysylltu, fetio a chymeradwyo yn cynnwys unrhyw waith ffisegol.
5. Rhaid cymeradwyo pob cysylltiad a derbyn taliad cyn ei wneud i'r system draenio priffyrdd.